Adolygiad o Ysgolion Uwchradd

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

Rydym am glywed eich barn - cyfle i ddweud eich dweud

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Adolygiad o Ysgolion Uwchradd

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

Pam fod angen inni newid pethau?

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle gorau posibl i ddysgu. Mae hefyd yn ceisio defnyddio'r adnoddau sydd ganddo (pobl, cyllid, adeiladau, gwybodaeth a thechnoleg) yn effeithlon ac effeithiol i sicrhau canlyniadau gwell a gwerth am arian.

Mae cynllunio lleoedd ysgolion a rheoli trefniadaeth ysgolion yn ddyletswydd statudol gan bob Awdurdod Lleol. Rhaid i'r Cyngor Sir sicrhau bod digon o leoedd ysgol ar gael, gyda'r ysgolion iawn yn y lle iawn.

Drwy'r rhaglen hon rydym yn ceisio gwella safonau ac effeithlonrwydd drwy:

- sicrhau bod ystod ehangach o lwybrau dysgu academaidd a galwedigaethol ar gael nag ar hyn o bryd;
- adeiladu ar ein llwyddiannau diweddar o ran gwella lefelau cyflawniad mewn arholiadau cyhoeddus;
- cefnogi ein pobl ifanc i lwyddo'n well fyth ac i symud ymlaen at Addysg Uwch a chyflogaeth;
- achub ar bob cyfle i wella sgiliau'r gweithlu yn gyffredinol;
- sicrhau amgylcheddau dysgu a gweithio gwell i fyfyrwyr a staff fel ei gilydd;
- ein hethos cymunedol, gyda chyfleusterau newydd a fydd yn gynyddol ar gael i'r gymuned ehangach.

Pa ffactorau eraill sydd angen eu hystyried?

Bydd unrhyw opsiynau lle bydd angen arian cyfalaf sylweddol yn dibynnu'n drwm ar faint o gyllid a gawn gan Lywodraeth Cymru, yr awdurdod lleol a ffynonellau eraill.

Beth ydyn yn ei ofyn ichi?

Rydym yn gofyn ichi roi gwybod inni beth yw eich barn am unrhyw un o'r opsiynau yn y ddogfen hon. Os dymunwch gynnig opsiynau eraill, bydd y Cyngor yn hapus i'w hystyried.

Byddem yn annog i bawb y bydd hyn yn effeithio arnynt i fynychu'r diwrnodau agored. Bydd cyfle i drafod yr opsiynau yn fwy manwl a bydd yn fforwm i ofyn cwestiynau.

Adolygiad o Ysgolion Uwchradd

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

Yr opsiynau ar gyfer Bwcle / Mynydd Isa a'r Wyddgrug

Cefndir

- Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i foderneiddio ei ysgolion drwy ddisodli neu ailwampio lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Dim ond rhan o'r arian y bydd angen ei gael ar gyfer y datblygiad cyfalaf mawr y bydd Llywodraeth Cymru'n ei gyfrannu, bydd angen i'r Cyngor ddod o hyd i'r gweddill.
- Mae'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion gan Sir y Fflint yn cynnwys Adolygiadau Ardal o'r ddarpariaeth, i edrych ar wella a symleiddio'r adeiladau ysgolion a sut y darperir yr addysg.

Yr Achos Dros Newid

- Mae Ysgol Uwchradd Elfed wedi gweld lleihad yn nifer y disgyblion ar ei chofrestr dros y blynyddoedd diwethaf gan fod nifer gyffredinol plant oed ysgol gynradd wedi gostwng.
- Mae gan yr adeilad rai diffygion, ond yn gyffredinol mae'n gadarn, ac mae buddsoddi helaeth mewn to newydd a gwaith ailwampio mewnol wedi cadw'r adeilad mewn cyflwr boddhaol ar y cyfan.
- Nid yw'r trefniadau mynediad o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd wedi eu cwblhau, a byddai angen buddsoddi ymhellach i gwblhau'r gwaith yma.
- Yn ôl y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion, dylai Ysgol Uwchradd gynnwys pedwar dosbarth mynediad o leiaf (600 o ddisgyblion yn y cohort cyn 16 oed am dair blynedd yn olynol). Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Uwchradd Elfed 620 o ddisgyblion cyn 16 oed.
- Mae'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion hefyd yn nodi'r nifer leiaf sydd i fod mewn chweched dosbarth, sef 120, ac ar hyn o bryd mae gan Ysgol Uwchradd Elfed 96.
- Mae capasiti'r ysgol yn 1037, ac felly mae yna gapasiti gwag sylweddol o 31%.
- Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, dylai Awdurdodau adolygu ysgolion gyda mwy na 25% o leoedd gwag. Mae'r adolygiad felly wedi cael ei sbarduno gan y niferoedd yn y chweched dosbarth ôl 16 oed ynghyd â'r ganran uchel o gapasiti gwag yng ngweddill yr ysgol.
- Gellid ateb y broblem lleoedd gwag naill ai drwy gynyddu nifer y disgyblion drwy gau Ysgolion Uwchradd Elfed ac Argoed ac agor ysgol newydd, neu drwy integreiddio'r ddarpariaeth ysgol gynradd o fewn yr ysgol i gynnig cyfleusterau 3-16 oed neu drwy ddefnyddio'r capasiti gwag at ddibenion di-ysgol, er enghraifft swyddfeydd ar gyfer cyfleusterau addysg.

Adolygiad o Ysgolion Uwchradd

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

- Darpariaeth 11-16 oed yw Ysgol Uwchradd Argoed, gyda'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ôl 16 oed yn Ysgol Uwchradd Alun.
- Mae rhai disgyblion o ysgolion cynradd Bwcle yn mynd i Ysgol Uwchradd Argoed
- Nid yw adeilad Argoed mewn cyflwr da, ac mae'n dyddio'n ôl i'r 1970au; erbyn hyn ceir trafferthion gydag addasrwydd, gwaith trwsio a chynnal a chadw, ynghyd â mynediad anfoddhaol o ran y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Yn sgil cynllun yr adeilad, byddai cymryd camau adferol yn anodd ac yn ddrud.
- Mae capasiti Ysgol Uwchradd Argoed yn 580, ac mae'r nifer ar y gofrestr ar hyn o bryd yn 585. Felly mae diffyg lleoedd yn yr ysgol ar hyn o bryd.
- Mae capasiti'r ysgol yn llai na'r ffigur o 600 a nodir yn y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion, a dyna pham y cynhwysir yr ysgol yn yr adolygiad hwn.
- Mae angen safle ar gyfer Ysgol Gynradd Mynydd Isa, sydd newydd uno'n ddiweddar, os yw i weithredu o un safle. Gellid lleoli hon ar safle presennol Ysgol Argoed pe na byddai'r safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer addysg uwchradd.
- Mae 20% o gapasiti adeiladau mewn ystafelloedd dosbarth symudol.
- Mae llawer o'r ardaloedd dysgu yn llai na'r maint lleiaf modern.

- Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Uwchradd Alun yn yr Wyddgrug 1709 o fyfyrwyr ar y gofrestr, 491 ohonynt yn y chweched dosbarth. Mae'n debyg mai hon yw'r ysgol fwyaf gyda chyfleusterau ôl 16 oed yng Nghymru.
- Mae maint y chweched dosbarth yn golygu bod yr ysgol yn gallu cwrdd â gofynion cwricwlaidd y Mesur Dysgu a Sgiliau heb alw ar wasanaeth ysgol arall.
- Mae'r chweched dosbarth yn recriwtio ar draws yr ardal i gyd.
- Mae'r adeiladau yn Ysgol Alun yn amrywio yn eu cyflwr a'u haddasrwydd.
- Bydd angen buddsoddi'n helaeth i gadw'r hen ran Daniel Owen o'r adeilad sy'n dyddio'n ôl i'r 1930au, ac nid yw'n cwrdd â gofynion modern o ran mynediad addas o dan y Ddeddf Anabledd.

Adolygiad o Ysgolion Uwchradd

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

Y Ddarpariaeth Gwricwlwm

Ysgol Uwchradd Elfed

- Mae'r ysgol bresennol yn darparu ar gyfer y cwricwlwm llawn o 11 oed i 18 oed.
- Mae'r chweched dosbarth yn cynnig addysg ôl 16 oed i 96 o fyfyrwyr.
- Mae yna broblemau o ran pa mor addas yw ambell ran o'r adeilad i ddarparu'r cwricwlwm modern
- Mae Estyn yn dweud bod perfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon ar gyfer gwella yn dda
- Mae cynnal a chadw chweched dosbarth bach yn profi i fod yn her ariannol i'r ysgol.

Ysgol Uwchradd Argoed

- Mae Ysgol Uwchradd Argoed yn ysgol 11-16 oed ac nid oes ganddi unrhyw ddarpariaeth ôl 16 oed
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm llawn yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4
- Mae'r myfyrwyr yn trosglwyddo i amrywiol ddarparwyr ôl 16 gan gynnwys naill ai Ysgol Uwchradd Elfed neu Ysgol Uwchradd Alun yn yr Wyddgrug i barhau gyda'u hastudiaethau
- Mae Estyn yn dweud bod Argoed yn ysgol dda o ran pa mor dda y mae dysgwyr yn llwyddo i gael nodweddion da a dim diffygion pwysig

Ysgol Uwchradd Alun yn yr Wyddgrug

- Mae'r ysgol yn darparu'r cwricwlwm llawn i ddisgyblion 11-18 oed ar draws Cyfnodau Allweddol 3, 4 a 5
- Mae Estyn yn dweud bod ysgol Alun yn ysgol dda iawn ac o ran pa mor dda y mae dysgwyr yn llwyddo i fod yn dda gyda nodweddion arbennig

Adolygiad o Ysgolion Uwchradd

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

Gwybodaeth Ddemograffig

YSGOL	MATH	NIFER Y DISGYBLION AR Y GOFRESTR BLYNYDDOEDD 7 - 11	NIFER Y DISGYBLION AR Y GOFRESTR BLYNYDDOEDD 12 - 13	NIFER Y DISGYBLION AR Y GOFRESTR CYFANSWM	CAPASITI	CAPASITI DROS BEN CAPASITI	% LLEOEDD GWAG
Ysgol Uwchradd Alun	11-18	1218	491	1709	1768	59	3.34%
Ysgol Uwchradd Argoed	11-16	585	0	585	580	-5	-0.86%
Ysgol Uwchradd Elfed	11-18	620	96	716	1037	321	30.95%

Pwyntiau Allweddol:

- Yn Ionawr 2011 roedd gan Gyngor Sir y Fflint dair ysgol uwchradd gyda lleoedd gwag dros yr uchafswm sydd ar hyn o bryd yn gymeradwy gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o 25% o leoedd gwag.
- Roedd y tair ysgol yma; Ysgol Uwchradd Elfed, Ysgol Uwchradd Treffynnon ac Ysgol Uwchradd John Summers, gyda'i gilydd, yn cyfrif am 64.44% o'r capasiti gwag yn y 12 ysgol uwchradd prif ffrwd gan Gyngor Sir y Fflint yn Ionawr 2011.
- Y ganran gyfartalog o leoedd gwag ar gyfer pob un o'r 12 ysgol uwchradd prif ffrwd yn Ionawr 2011 oedd 13.13%.
- Mae rhai o'r chweched dosbarth yn Sir y Fflint (Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13) yn eithriadol fach sy'n creu trafferth o ran cynllunio cwricwlwm digon eang ac o ran cynaliadwyedd ariannol.

OPSIYNAU POSIBL I'W HYSTYRIED

	OPSIYNAU I'W HYSTYRIED	MANTEISION POSIBL	ANFANTEISION POSIBL
OPSIWN 1	UNO – diben hyn fyddai dwyn Ysgolion Uwchradd Argoed ac Elfed at ei gilydd dan arweiniad un pennaeth ac un corff llywodraethu. Yr effaith ar lefel yr ysgol: **Ysgol Uwchradd Alun:** Dim newid **Ysgolion Uwchradd Elfed ac Argoed:** ● Un Pennaeth / Uwch Dîm Rheoli ar gyfer yr ysgolion presennol ● Un corff llywodraethu ● Un gyllideb ysgol	● Un sefydliad gydag un Pennaeth, un ethos ac un gyllideb fwy ● Mae'n bosibl y byddai mwy o ddisgyblion yn symud ymlaen at y ddarpariaeth ôl 16 oed yn Elfed ● Arbedion ariannol posibl ● Gallai gadw'r ddarpariaeth uwchradd ym Mynydd Isa a Bwcle ● Pe byddid yn tynnu adeilad dros dro o Ysgol Uwchradd Argoed , gellid defnyddio lle ychwanegol yn Ysgol Uwchradd Elfed	● Nid yw'n ateb y broblem o faint o ddisgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth cyn 16 oed yn ysgol Elfed, sy'n arwain at lefydd gwag o ganlyniad ● Nid yw'n ateb problemau cyllideb ● Un ysgol ar safle wedi'i rannu ● Y Pennaeth yn 'cymudo' rhwng safleoedd ● Angen o bosib i gadw ystafelloedd dosbarth symudol yn Ysgol Uwchradd Argoed

	OPSIYNAU I'W HYSTYRIED	MANTEISION POSIBL	ANFANTEISION POSIBL
OPSIWN 2	FFEDEREIDDIO – byddai hyn yn golygu bod corff llywodraethu'r ddwy ysgol yn cytuno i sefydlu un corff llywodraethu a phenodi un Pennaeth. Dim ond os bydd y ddau gorff llywodraethu yn cytuno ac yn dewis gwneud hyn y gellir ei wneud. Yr effaith ar lefel yr ysgol: **Ysgol Uwchradd Alun:** Dim newid **Ysgolion Uwchradd Elfed ac Argoed:** ● Un Pennaeth ● Un corff llywodraethu ● Cadw cyllidebau ar wahân ● Cadw endidau ysgolion unigol - enwau ayb.	● Un Pennaeth ac un corff llywodraethu yn cynnig mwy o hyblygrwydd gyda chyllidebau ar wahân Er y byddai'r ysgolion yn endidau cyfreithiol ar wahân, mae'n bosibl y byddai ethos yr ysgolion a'r cydweithrediad yn agosach ● Arbedion refeniw posibl ● Dim ond cyrff llywodraethu'r ysgolion eu hunain sy'n gallu cynnig ffederaleiddio	● Nid yw'n ateb y broblem o faint o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Elfed, a'r llefydd gwag ● Mae'r problemau cyllideb yn parhau ● Dwy ysgol gyda Phennaeth yn cymudo rhwng y ddwy ● Angen o bosib i gadw ystafelloedd dosbarth symudol yn Ysgol Uwchradd Argoed

	OPSIYNAU I'W HYSTYRIED	MANTEISION POSIBL	ANFANTEISION POSIBL
OPSIWN 3	Sefydlu ysgol 11-18 newydd ar safle Ysgol Uwchradd Elfed Yr effaith ar lefel yr ysgol: **Ysgol Uwchradd Alun:** Mae'n bosibl na fyddai unrhyw newid **Ysgol Uwchradd Elfed:** Cau'r ysgol bresennol a sefydlu ysgol uwchradd 11-18 newydd (yn defnyddio'r un adeilad) wedi ei hymestyn i wneud lle i'r holl ddisgyblion o ardal Bwcle / Mynydd Isa **Ysgol Uwchradd Argoed:** Cau'r ysgol bresennol a defnyddio'r safle ar gyfer ysgol gynradd newydd ar gyfer Mynydd Isa, gan ryddhau dau safle presennol yr ysgolion iau a babanod	• Byddai'n datrys y problemau lleoedd gwag / cyllideb yn Ysgol Uwchradd Elfed pe bai'n arwain at gynnydd yn y niferoedd ôl 16 oed • Byddai'n sicrhau darpariaeth 11-18 yn ardal drefol helaeth Bwcle a Mynydd Isa • Byddai cau Ysgol Uwchradd Argoed yn cynnig safle addas ar gyfer ysgol newydd i rannu'r ddarpariaeth gydag Ysgol Gynradd Mynydd Isa, tra'n rhyddhau cyfalaf ar y safleoedd hynny a chyfrannu at gostau cyfalaf y rhaglen foderneiddio • Cael gwared ar y gwaith trwsio a chynnal a chadw sydd wedi hel yn Ysgol Uwchradd Argoed • Cael gwared ar ystafelloedd dosbarth symudol	• Effaith cau Ysgol Uwchradd ar gymuned Mynydd Isa • Problemau staffio • Costau addasu ac ymestyn safle Ysgol Uwchradd Elfed i wneud lle ar gyfer mwy o fyfyrwyr • Yr effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Uwchradd Alun pe bai'r ysgol newydd ar safle Elfed yn cadw mwy o fyfyrwyr ôl 16 • Lleoedd gwag posibl • Mae'r adeilad wedi cyrraedd diwedd ei oes economaidd erbyn hyn • Problem gludiant i gwrdd â'r mesur dysgu a sgiliau

	OPSIYNAU I'W HYSTYRIED	MANTEISION POSIBL	ANFANTEISION POSIBL
OPSIWN 4	Sefydlu Ysgol Uwchradd 11-16 ar safle presennol Ysgol Uwchradd Elfed a throsglwyddo'r holl ddarpariaeth ôl 16 i Ysgol Uwchradd Alun Yr effaith ar lefel yr ysgol: **Ysgol Uwchradd Alun:** Ehangu'r ddarpariaeth ôl 16 o tua 100 o leoedd **Ysgol Uwchradd Elfed:** Symleiddio'r adeilad i 600 o leoedd **Ysgol Uwchradd Argoed:** Dim newid	• Canoli'r holl ddarpariaeth ôl 16 mewn un lle • Cadw'r ddarpariaeth uwchradd leol ym Mynydd Isa • Efallai y byddai lle yn Ysgol Uwchradd Elfed ar gyfer defnyddiau eraill	• Nid yw'n ateb y broblem o'r nifer sydd ar y gofrestr / cyllideb yn Ysgol Uwchradd Elfed • Byddai angen symleiddio'r adeiladau yn Ysgol Uwchradd Elfed i osgoi mwy o leoedd gwag • Nid yw'n ateb y broblem adeiladau yn Ysgol Uwchradd Argoed • Problemau adeiladau / cyfleusterau yn Ysgol Uwchradd Alun • Problemau cludiant

	OPSIYNAU I'W HYSTYRIED	MANTEISION POSIBL	ANFANTEISION POSIBL
OPSIWN 5	Sefydlu darpariaeth 11-16 yn Ysgol Uwchradd Elfed, a fyddai'n sicrhau'r holl ddarpariaeth cyn 16 oed ar gyfer ardal Bwcle / Mynydd Isa, gyda'r holl ddarpariaeth ôl 16 oed i'w chanoli yn Ysgol Uwchradd Alun Yr effaith ar lefel yr ysgol: **Ysgol Uwchradd Alun:** Ehangu'r ddarpariaeth ôl 16 o tua 100 o leoedd **Ysgol Uwchradd Elfed:** Ehangu'r adeilad i tua 1200 o leoedd **Ysgol Uwchradd Argoed:** Cau'r ysgol a defnyddio'r safle ar gyfer ysgol gynradd newydd Mynydd Isa	• Byddai'n ateb y broblem o'r nifer ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Elfed • Canoli'r holl ddarpariaeth ôl 16 yn yr Wyddgrug • Ateb y broblem gyllideb yn Ysgol Uwchradd Elfed • Rhyddhau safle Ysgol Uwchradd Argoed ar gyfer ysgol gynradd • Lleihau'r gwaith trwsio a chynnal a chadw sydd wedi hel, a'r ystafelloedd dosbarth symudol	• Angen ehangu'r adeiladau yn Ysgol Uwchradd Elfed • Colli'r ddarpariaeth ôl 16 ym Mwcle • Colli'r ddarpariaeth uwchradd ym Mynydd Isa • Problemau adeilad/ cyfleusterau yn Ysgol Uwchradd Alun • Problemau cludiant

	OPSIYNAU I'W HYSTYRIED	MANTEISION POSIBL	ANFANTEISION POSIBL
OPSIWN 6	Sefydlu darpariaeth 3-16 fesul cam yn Ysgol Elfed ac Argoed Yr effaith ar lefel yr ysgol: **Ysgol Uwchradd Alun:** Ehangu'r ddarpariaeth ôl 16 o tua 100 o leoedd **Ysgol Uwchradd Elfed:** Defnyddio'r capasiti gwag presennol ar gyfer darpariaeth gynradd **Ysgol Uwchradd Argoed:** Ehangu'r ddarpariaeth 3-16 oed	• Lleihau'r llefydd gwag yn Ysgol Uwchradd Elfed drwy ddefnyddio adeiladau ar gyfer plant cyfnod cynradd • Darparu ysgol 'gynradd' newydd yn lle'r un bresennol • Cadw'r ddarpariaeth uwchradd ym Mynydd Isa a Bwcle	• Nid yw'n ateb y broblem o'r nifer ar y gofrestr yn Ysgol Uwchradd Elfed • Dim digon o le yn Ysgol Uwchradd Argoed ar gyfer ysgol gynradd newydd • Problemau adeiladau yn Ysgol Uwchradd Alun. • Problemau cludiant gyda'r ddarpariaeth ôl 16

Adolygiad o Ysgolion Uwchradd

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

AMSERLEN

Cam o'r Broses	Disgrifiad o'r Broses	Manylion
Cam Un	• *Cam Ymgynghori* • Casglu gwybodaeth anffurfiol a rhannu data. Trafod y problemau a'r syniadau yn fanwl. Y Digwyddiadau Ymgynghori. Sylwadau i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir.	• Cyfarfodydd gyda'r Penaethiaid, llywodraethwyr, myfyrwyr a'r cyhoedd • Dyddiad cau ar gyfer ymgynghori Medi 30 2011. • Adrodd yn ôl i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor Sir yn Hydref 2011.
Cam Dau	• *Cyhoeddi Hysbysiadau* • Lle mae cytundeb, yr Awdurdod Lleol i gynnig newidiadau i'r ysgolion yn ffurfiol drwy gyhoeddi Hysbysiad Statudol.	• Tachwedd 2011
Cam Tri	• *Diwedd y Cyfnod Hysbysu Statudol* • Penderfyniad yn cael ei gymryd yng ngoleuni sylwadau a gwrthwynebiadau a ddaeth i law ac a oes angen cyfeirio'r mater at Lywodraeth Cymru.	• Rhagfyr 2011
Cam Pedwar	• *Gweithredu*	• Medi 2012 – Medi 2014

CWESTIYNAU CYFFREDIN

Sut fyddaf yn gallu lleisio fy marn?

Bydd nifer o ffyrdd eraill y gallwch ddweud eich dweud wrthym.

Cynhelir dau ddigwyddiad ymgynghori yn Ysgolion Uwchradd Elfed ac Argoed.

Dydd Mawrth 5 Gorffennaf 2011	*Ysgol Uwchradd Elfed*	*Rhwng 4pm a 7pm*
Dydd Mercher 13 Gorffennaf 2011	*Ysgol Uwchradd Argoed*	*Rhwng 4pm a 7pm*
Dydd Mercher 14 Medi 2011	*Ysgol Uwchradd Argoed*	*Rhwng 4pm a 7pm*
Dydd Mercher 21 Medi 2011	*Ysgol Uwchradd Elfed*	*Rhwng 4pm a 7pm*

Yn y digwyddiadau hyn byddwch yn gallu gofyn cwestiynau a thrafod unrhyw syniadau sydd gennych.

Mae ffurflen ymateb yn y llyfryn hwn. Dylech lenwi'r ffurflen ymateb hon a'i dychwelyd at: Y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND.

Fel arall, gallwch fynd i wefan y Cyngor yn www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolionuwchradd a llenwi ffurflen ymateb ar-lein.

Neu gallwch roi eich ffurflen ymateb, ar ôl ei llenwi, i Bennaeth unrhyw un o'r ysgolion yn yr ardal y mae'r ymgynghoriad hwn yn effeithio arnynt.

Beth fydd yn digwydd ar ôl ymgynghori?

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor Sir i ystyried ymateb ffurfiol. Bydd Pwyllgor Gweithredol y Cyngor Sir yna'n penderfynu a ddylid cyhoeddi Hysbysiad Statudol neu beidio ar y cynigion yn y papur hwn, neu ar fersiynau diwygiedig o'r cynigion hyn, neu yn wir ar gynigion newydd y gellid eu hawgrymu dros y cyfnod ymgynghori.

A fydd hyn yn digwydd yn bendant?

Mae'r arian a'r camau proses ar gyfer yr opsiynau hyn yn dibynnu ar faint o gyllid fydd gan Lywodraeth Cymru, a chyllidwyr eraill, ar gael felly mae angen inni fod yn barod. Bydd deall beth yw barn rhieni, myfyrwyr, athrawon, llywodraethwyr, staff yr ysgolion a'r gymuned ehangach yn y cam yma yn ein helpu i symud yn gyflym os bydd y cyllid hwn yn dod ar gael i Sir y Fflint.

Adolygiad o Ysgolion Uwchradd

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

CWESTIYNAU CYFFREDIN

Pryd fyddwn ni'n gwybod beth fydd yn digwydd?

Y bwriad yw y bydd yr Ymgynghori Ffurfiol yn dod i ben erbyn diwedd Medi 2011 ac adroddiad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Gweithredol Cyngor Sir y Fflint yn cynnwys yr ymateb i'r broses ymgynghori. Os penderfynir cyhoeddi Hysbysiadau Statudol, bydd y broses yma'n dechrau yn Hydref 2011 gan roi mis ar gyfer derbyn unrhyw wrthwynebiadau ffurfiol. Os bydd y Cyngor yn penderfynu symud ymlaen gyda chynigion, a gwrthwynebiadau iddynt yn dod i law, Llywodraeth Cymru wedyn fydd yn edrych ar y cynigion a Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu. Os penderfynir cefnogi'r cynigion, bydd amserlen yn cael ei chyflwyno i weithredu'r prosiect.

Sut fydd y disgyblion yn teithio i'r lleoliad newydd?

Dim ond i ddisgyblion oed cynradd sy'n byw dros 2 filltir i ffwrdd a disgyblion uwchradd sy'n byw dros 3 milltir i ffwrdd o'r ysgol agosaf fydd Cludiant i'r Ysgol Am Ddim yn cael ei gynnig i fynd i'r ysgol cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg neu'r ysgol Ffydd agosaf.

Fodd bynnag, ni fydd hawl i gludiant i'r ysgol am ddim os bydd disgybl yn dewis mynychu ysgol arall ac mae ysgol briodol arall yn agosach at gartref y disgybl y byddai'n gallu mynd iddi.

Byddai unrhyw ddisgybl ar gofrestr ysgol lle byddai angen iddo / iddi deithio o ganlyniad i'r cynigion yn derbyn cludiant am ddim. Byddai hyn yn rhan o gynllun teithio ar gyfer y newidiadau arfaethedig.

Allwn ni dal ddewis pa ysgol fyddai'n well gennyf i fy mhlentyn fynd iddi os bydd eu hysgol yn cael ei had-drefnu?

Gallwch. Gall rhieni ddweud pa ysgol fyddai'n well ganddynt i'w plentyn fynychu ar gyfer y flwyddyn fynediad arferol.

Beth fydd yr opsiynau hyn yn ei olygu i'r gymuned ehangach?

Mae darpariaeth ysgol newydd wedi'i dyfeisio i annog y gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau ac i annog grwpiau a chlybiau i sefydlu. Bydd cyfleusterau cymunedol yn cynnig ystod o weithgareddau a chyfleoedd i gyfoethogi bywydau plant, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

CWESTIYNAU CYFFREDIN

Beth fyddai patrwm newydd o ddarpariaeth ysgol yn ei olygu i fy mhlentyn?

Bydd yr amgylchedd a fyddai'n cael ei greu yn gwella addysg plentyn neu berson ifanc ac yn rhoi'r adnoddau i hwyluso addysgu rhagorol i'r athrawon. Bydd hyn yn ein helpu i godi safonau ac yn cynnig mwy o ddewis pynciau i bawb.

Rydym yn rhagweld y bydd y cyfleusterau, boed yn rhai newydd neu wedi eu hailwampio, yn hwyluso dyheadau uwch, cyflawni gwell tra'n cynnig amgylchedd dysgu braf, diogel, pleserus ac effeithiol.

Bydd sicrhau yr ethos a hunaniaeth presennol yr ysgol Cymraeg a Gathlig yn oll bwysig mewn unrhyw batrwm newydd o ddarpariaith.

A fydd y cyllid yn gyfyngedig i'r ysgolion a enwi'r yn y cynllun yma?

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno rhaglen am gyllid gan Lywodraeth Cymru i ychwanegu at ei adnoddau ei hun i adnewyddu cyfleusterau. Dim ond i ddatblygu prosiectau penodol y mae'r cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gael.

Bydd amserlen a sgôp y gwaith o adnewyddu'r adeiladau yn dibynnu ar faint o adnoddau a ddaw gan Lywodraeth Cymru, y Cyngor Sir a phartneriaid eraill i wireddu'r weledigaeth a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad.

Adolygiad o Ysgolion Uwchradd

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

CWESTIYNAU CYFFREDIN

Sut mae'r cynigion hyn yn cyfrannu at bolisi Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â thlodi plant?

Mae cysylltiad llwydd iannus plentyn hefo dysgu yn gwella eu cyfle mewn bywyd ac mae cysylltiad clir rhwng addysg unigolion ag ansawdd bywyd.

Mae'r cynigion yn cynnig mwy o waith i ardal Sir y Fflint ac i'w chyffiniau. Bydd gwaith yn cael ei greu o ganlyniad i'r datblygiad, y gwaith adeiladu a'r cam ôl-ddatblygu.

Bydd cynlluniau i wella'r ddarpariaeth ddysgu yn y Sir yn sicrhau bod plant difreintiedig yn cael eu hannog yn frwd i gyfrannu at weithgareddau hamdden a chymdeithasol. Bydd cynnwys rhanddeiliaid yn y cynigion hyn yn bellgyrhaeddol ac yn rhoi pwyslais arbennig ar gyfranogiad plant a phobl ifanc o bob cefndir.

Yn olaf, byddwn yn sicrhau bod gan bob rhan o gymdeithas fynediad cyfartal at wasanaethau cyhoeddus allweddol. Rydym yn gweithio i weithredu timau aml-ddisgyblaeth gan gynnwys gweithwyr cefnogi rhieni, ymwelwyr iechyd, gweithwyr chwarae, cymorth crèche ac yn y blaen.

Sut fydd y Cyngor Sir yn sicrhau bod rhieni a disgyblion yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn ystod y trefniadau pontio?

Mae'r Awdurdod yn cydnabod pa mor bwysig yw proses bontio effeithiol a llyfn i gynorthwyo dysgu, ac i gwrdd â disgwyliadau disgyblion a rhieni. Disgwylir y bydd Arweinydd Pontio penodol ar gyfer yr ysgolion newydd yn sicrhau bod y trefniadau'n cael eu gweithredu. Byddant yn monitro ac adolygu'r trefniadau hyn fel bo angen ac yn adrodd ar eu darganfyddiadau i gyrff llywodraethu interim drwy ddiweddaru. Bydd rhieni / gofalwyr a'r disgyblion yn derbyn y wybodaeth berthnasol i'w helpu i ddeall unrhyw broses drosglwyddo a beth fyddai'r cymorth mwyaf priodol i'w roi i'w plant yn ystod y cyfnod pontio. Bydd yr ysgolion dan sylw yn gweithio gyda'i gilydd a chydag asiantaethau eraill i adnabod unrhyw deuluoedd fydd angen cymorth ychwanegol arnynt wrth ac ar ôl trosglwyddo eu plant.

Adolygiad o Ysgolion Uwchradd

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

Beth yw eich barn?

Mae eich barn ac unrhyw gwestiynau pellach yn bwysig inni a byddem yn hoffi eu clywed. Cofiwch eu codi yn y digwyddiadau ymgynghori / trafodaethau.

Mae gwybodaeth bellach hefyd ar gael ar wefan Sir y Fflint yn **www.sirysfflint.gov.uk/moderneiddioysgolionuwchradd.**

Os oes gennych unrhyw gwestiwn arall, gallwch hefyd gysylltu gyda'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes drwy ffonio 01352 704010 neu e-bostio: **21stcenturyschools@flintshire.gov.uk**

A fyddech gystal â llenwi'r ffurflen ymateb yn y llyfryn hwn a'i dychwelyd at:
Y Tîm Moderneiddio Ysgolion,
Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6ND.

Neu gallwch ei llenwi ar-lein yn **www.sirysfflint.gov.uk/moderneiddioysgolionuwchradd**

Neu hefyd, gallwch roi eich ffurflen ymateb, ar ôl ei llenwi, i Bennaeth unrhyw un o'r ysgolion yn yr ardal sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Rhaid inni dderbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad erbyn dydd Gwener 30 Medi 2011 fan bellaf.

Adolygiad o Ysgolion Uwchradd

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

NODIADAU